# Y Trydydd Cynulliad – Cyfarfod Llawn

**Pleidleisiau a Thrafodion (219)**

**Dyddiad: Dydd Mercher 6 Hydref 2010**
**Amser: 13.30**

### Eitem 1: Cwestiynau i’r Gweinidog dros Faterion Gwledig

Gofynnwyd y 10 cwestiwn cyntaf. Tynnwyd cwestiwn 3 yn ôl. Ni ofynnwyd cwestiwn 7.

**.........................................**

**14.26**
### Eitem 2: Cwestiynau i’r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai

Gofynnwyd y 10 cwestiwn cyntaf. Cafodd cwestiynau 2, 5, 6 ac 8 eu hateb gan y Dirprwy Weinidog dros Dai ac Adfywio. Tynnwyd cwestiwn 9 yn ôl.

**.........................................**

**15.22**
### Eitem 3: Dadl Cyfnod 3, Rheol Sefydlog 23.57, ar Fesur Arfaethedig Caeau Chwarae (Ymgysylltiad Cymunedau â Phenderfyniadau Gwaredu) (Cymru)

Yn unol â Rheol Sefydlog 23.49, gwaredwyd y gwelliannau yn y drefn y mae’r adrannau a’r atodlenni y maent yn cyfeirio atynt yn codi yn y Mesur arfaethedig.

**Grwpiwyd y gwelliannau at ddibenion y ddadl ac fe’u trafodwyd yn ôl y grwpiau a ganlyn:**

**<u>1. Gweinidogion Cymru yn gwneud rheoliadau</u>**
5, 11, 6, 12, 13, 7, 8, 14, 9, 10

**<u>2. Technegol</u>**

1, 2, 3

**<u>3. Trefn ar gyfer rheoliadau</u>**
4

**Cynhaliwyd y pleidleisiau yn y drefn a nodir yn y Rhestr o Welliannau wedi’u Didoli:**

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 5:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 7 | 0 | 34 | 41 |

**Gwrthodwyd gwelliant 5**

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 11:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 7 | 0 | 34 | 41 |

**Gwrthodwyd gwelliant 11**

**Gan fod gwelliant 5 wedi ei wrthod, methodd gwelliant 6.**

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 12:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 7 | 0 | 34 | 41 |

**Gwrthodwyd gwelliant 12**

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 13:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 7 | 0 | 34 | 41 |

**Gwrthodwyd gwelliant 13**

**Gan fod gwelliant 11 wedi ei wrthod, methodd gwelliannau 7 ac 8.**

**Derbyniwyd gwelliant 1 yn unol â Rheol Sefydlog 7.35.**

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 14:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 7 | 0 | 34 | 41 |

**Gwrthodwyd gwelliant 14**

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 9:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 7 | 0 | 34 | 41 |

**Gwrthodwyd gwelliant 9**

**Gan fod gwelliant 12 wedi ei wrthod, methodd gwelliant 10.**

**Derbyniwyd gwelliannau 2 a 3 yn unol â Rheol Sefydlog 7.35.**

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 4:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 12 | 0 | 29 | 41 |

**Gwrthodwyd gwelliant 4**

**Barnwyd bod holl adrannau ac atodlenni'r Mesur arfaethedig wedi'u derbyn, gan ddod â thrafodion Cyfnod 3 i ben.**

........................................

**15.49**

**Eitem 4: Cynnig yng Nghyfnod 4 o dan Reol Sefydlog 23.58 i gymeradwyo'r Mesur Arfaethedig Caeau Chwarae (Ymgysylltiad Cymunedau â Phenderfyniadau Gwaredu) (Cymru)**

Cynigiodd yr Aelod sy'n gyfrifol fod y Mesur arfaethedig yn cael ei basio yn unol â Rheol Sefydlog 23.58.

**Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig:**

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 38 | 0 | 5 | 43 |

**Cafodd y Mesur ei basio.**

Mae'r Mesur fel y cafodd ei basio i'w weld drwy ddilyn y linc hwn:

[http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-legislation/bus-leg-measures/bus-legislation-meas-pf.htm](http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-legislation/bus-leg-measures/bus-legislation-meas-pf.htm)

........................................

**16.02**

**Eitem 5: Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc – Trefniadau ar gyfer Lleoli Plant mewn Gofal yng Nghymru**

**NDM4545 Helen Mary Jones (Llanelli)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi adroddiad y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc "Trefniadau ar gyfer Lleoli Plant mewn Gofal" a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 24 Mai 2010.

Sylwer: Gosodwyd ymateb y Dirprwy Brif Weinidog dros Wasanaethau Cymdeithasol i'r adroddiad yn y Swyddfa Gyflwyno ar 29 Medi 2010.

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 7.35.**

**.........................................**

**16.49**
**Eitem 6: Dadl y Ceidwadwyr Cymreig**

**NDM4547 Nick Ramsay (Mynwy)**

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn credu bod angen i'r Rhaglen Adnewyddu'r Economi osod cyfeiriad clir o ran gwasanaethau cefnogi busnes i fusnesau bach.

2. Yn nodi penbleth a dadrithiad y sector busnesau bach a chanolig yn dilyn cyhoeddi'r Rhaglen Adnewyddu'r Economi.

3. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i gyhoeddi ei fwriadau ar gyfer gwasanaethau cefnogi busnes cyn gynted â phosibl ac i ymgynghori â'r sector busnesau bach a chanolig ar ba mor addas yw ei chynlluniau.

Gellir gweld y Rhaglen Adnewyddu'r Economi drwy ddilyn y linc canlynol:

http://cymru.gov.uk/topics/businessandeconomy/help/economicrenewal/programmepapers/?skip=1&lang=cy

**Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig a'r gwelliannau o dan yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.**

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig heb ei ddiwygio:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 14 | 0 | 29 | 43 |

**Gwrthodwyd y cynnig heb ei ddiwygio.**

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 - Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Dileu popeth a rhoi yn ei le:

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn croesawu’r polisi a fabwysiadwyd yn *Adnewyddu’r Economi: cyfeiriad newydd*, sy’n amlinellu’r rhan y gall Llywodraeth y Cynulliad ei chwarae wrth gynnig yr amodau gorau i bob busnes dyfu a ffynnu.

2. Yn cydnabod bod y cyfeiriad polisi hwn yn cynnig bargen decach a gwell i fusnesau bach a chanolig, drwy sianelu adnoddau Llywodraeth y Cynulliad i’r materion sy’n cyfyngu ar gystadleurwydd pob busnes.

3. Yn croesawu’r ffaith bod Llywodraeth y Cynulliad wedi ymgysylltu’n helaeth wrth ddatblygu *Adnewyddu’r Economi: cyfeiriad newydd* ac yn nodi’r ymrwymiad sy’n parhau i ymgysylltu’n barhaus â’r sector busnesau bach a chanolig wrth roi’r polisi ar waith.

*Gallwch weld y ddogfen Adnewyddu’r Economi: cyfeiriad newydd drwy ddilyn y linc canlynol:*

http://cymru.gov.uk/topics/businessandeconomy/help/economicrenewal/programmepapers/anewdirection/?lang=cy

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 1:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 29 | 0 | 14 | 43 |

**Derbyniwyd gwelliant 1.**

**Gwelliant 2 - Peter Black (Gorllewin De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i ymgysylltu â busnesau i sicrhau y symudir yn ddi-dor ac yn ddidrafferth at holl agweddau newydd Rhaglen Adnewyddu'r Economi, nid dim ond ei phrif ddarpariaethau.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 2:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 14 | 0 | 29 | 43 |

**Gwrthodwyd gwelliant 2.**

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig wedi’i ddiwygio:

**NDM4547**

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn croesawu’r polisi a fabwysiadwyd yn *Adnewyddu’r Economi: cyfeiriad newydd*, sy’n amlinellu’r rhan y gall Llywodraeth y Cynulliad ei chwarae wrth gynnig yr amodau gorau i bob busnes dyfu a ffynnu.

2. Yn cydnabod bod y cyfeiriad polisi hwn yn cynnig bargen decach a gwell i fusnesau bach a chanolig, drwy sianelu adnoddau Llywodraeth y Cynulliad i'r materion sy'n cyfyngu ar gystadleurwydd pob busnes.

3. Yn croesawu'r ffaith bod Llywodraeth y Cynulliad wedi ymgysylltu'n helaeth wrth ddatblygu *Adnewyddu'r Economi: cyfeiriad newydd* ac yn nodi'r ymrwymiad sy'n parhau i ymgysylltu'n barhaus â'r sector busnesau bach a chanolig wrth roi'r polisi ar waith.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| **29** | **0** | **14** | **43** |

**Derbyniwyd y cynnig wedi'i ddiwygio.**

.........................................

## 17.45
## Cyfnod pleidleisio

.........................................

## 17.47
## Eitem 7: Dadl fer

**NDM4546 Jeff Cuthbert (Caerffili):**

Parchu ein Lluoedd Arfog

**Daeth y cyfarfod i ben am 18.11.**

.........................................

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30 ddydd Mawrth 12 Hydref 2010.**

**Ysgrifenyddiaeth y Siambr**